

Canllawiau gwaith cynnal a chadw adeiladau

Y ffordd orau o fynd i'r afael â gofal hirdymor adeiladau hanesyddol yw canolbwyntio ar waith cynnal a chadw ataliol rheolaidd.

Cynnwys

1. **Pam mae gwaith cynnal a chadw yn bwysig?**
2. **Arfer da**
3. **Problemau cyffredin**

Pam mae gwaith cynnal a chadw yn bwysig?

Mae nifer o resymau da dros gynnal a chadw adeiladau hanesyddol:

- Cadw'r dreftadaeth: mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cynnal edrychiad adeilad ac yn ymestyn ei oes. Mae hefyd yn atal colli adeiladwaith gwreiddiol, oherwydd caiff llai o ddeunydd ei golli mewn gwaith rheolaidd, prin ar raddfa fach, o gymharu â phrosiectau adfer helaeth.
- Atal biliau atgyweirio mawr: bydd ymestyn y cyfnod rhwng prosiectau atgyweirio drwy wneud gwaith cynnal a chadw yn gosod llai o faich ar adnoddau prin
- Cadw adnoddau: mae'n llawer gwell parhau i ddefnyddio ein hadeiladau sy'n bodoli eisoes a'u cadw mewn cyflwr da. Bydd hyn yn lleihau ein hangen am ddeunyddiau newydd, a fydd yn ei dro yn lleihau'r defnydd o ddulliau prosesu, cludo, gwastraff ac ynni
- Hyrwyddo gwarchodaeth: os ydym am rannu ein treftadaeth gyda chenedlaethau'r dyfodol mae angen i ni sicrhau ein bod yn gofalu am ein hadeiladau hanesyddol.

Arfer da

Mae angen cynnal archwiliadau cynnal a chadw blynyddol, wedi'u cynllunio mewn ffordd ofalus a threfnus. Yn ddelfrydol, dylech anelu at gwblhau archwiliad gweledol llawn o'ch adeilad o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rhestr Wirio

Dechreuwch drwy baratoi rhestr wirio sy'n nodi holl elfennau'r adeilad sydd angen eu harchwilio. Mae templedi ar gael ar:

[wefan Historic England](#)
[gwefan Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad](#)

Argymhellion

Nid oes rhaid cynnal yr archwiliad mewn un diwrnod ond gellid ei gynnal fesul adran.

Mae'n ddefnyddiol cynnal archwiliadau allanol yn ystod, neu yn syth ar ôl, glaw trwm, gan fydd hyn yn amlygu a yw nwyddau dŵr glaw yn gweithio'n iawn ai peidio.

Mae llawer o bobl yn ei chael yn haws archwilio pob rhan o'r adeilad yn ei thro, gan ddechrau drwy edrych i fyny ar y to a gweithio i lawr. Mae ysbïenddrychau yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag, os oes rhannau o'r adeilad yn anhygyrch, mae'n werth ystyried a oes angen ceisio help proffesiynol.

Os yw eich archwiliad yn nodi unrhyw beth sy'n destun pryder dylech geisio cyngor pellach gan bensaer neu syrfëwr adeiladu.

Tywydd gwael

Mae'n werth archwilio ardaloedd sy'n agored i niwed ar ôl glaw trwm neu eira hefyd.

Gall difrod gan storm i orchuddion toeau a sêl metel ddarparu llwybr i ddŵr dreiddio i mewn i'r adeilad, a bydd angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosib.

Problemau cyffredin

Dŵr

Gall dŵr sy'n llifo o do sy'n gollwng, cafn neu beipen wresogi wedi torri beri cryn dipyn o ddifrod a bydd yn dechrau torri'r mortar a'r plastr yn gyflym iawn, gan arwain at bydredd mewn pren.

Felly mae gwaith cynnal a chadw ataliol da yn ymwneud yn bennaf â chadw dŵr allan o'r adeilad a'i waredu mor gyflym ac effeithlon â phosibl.

Nwyddau dŵr glaw diffygiol

Sicrhewch fod yr holl gafnau wedi'u gosod yn ddiogel a'u lleoli fel eu bod yn arwain dŵr tuag at yr ollyngfa. Gall arwyddion o bridd yn cael ei olchi i ffwrdd ar lefel y ddaear neu dasgiadau o bridd ar waelod y waliau fod yn arwydd nad yw'r dŵr yn cael ei ddal gan y cafn. Mae staeniau lleithder ar waith maen hefyd yn arwydd clir bod problem.

Dylid gwirio'r gosodiadau ar gyfer peipiau dŵr a chafnau hefyd oherwydd gallant ddod yn rhydd neu rydu. Mae staeniau neu algâu o amgylch cymalau yn gliwiau y gall y cysylltiad fod yn ddiffygiol. Bydd cadw'r gwaith paent mewn cyflwr da yn lleihau'r tebygolrwydd o rydu.

Gwiriwch fod y dŵr o'r peipiau dŵr yn gollwng i'r gwli yn gywir ac nad yw'n arllwys ar y llawr. Dylai cyflwr gratiau neu rwyllau'r gwli gael eu harchwilio i sicrhau na all malurion ddisgyn i'r gwli ac achosi rhwystr.

Cafnau cafnog a pharapet wedi'u rhwystro.

Mae angen i gafnau cafnog a pharapet gael eu harchwilio a'u clirio rhag malurion cronedig yn rheolaidd i sicrhau bod dŵr glaw yn cael ei ollwng yn effeithiol ac i atal gorlenwi.

Gall hadau a gaiff eu chwythu gan y gwynt ymsefydlu yn gyflym mewn symiau bychain o silt; gall gwreiddiau glaswellt a phlanhigion achosi niwed eithriadol i waith maen yn ogystal â rhwystro llif dŵr oddi wrth yr adeilad.

Teils neu lechi wedi llithro

Nid yw pob newidiad lliw, craciau bach neu ddadlaminadu (naddu) yn golygu fod y to mewn cyflwr gwael, ond gall y malurion ar y ddaear o lechi neu deils wedi'u torri fod yn arwydd o broblem.

Dylai llechi neu deils coll neu wedi symud felly gael eu hadfer cyn i ddifrod ddigwydd i bren neu nenfwd y to. Bydd rhaid i chi gael contractwr sydd â'r cyfarpar priodol i ganiatáu mynediad diogel i lethr y to.

Efallai y bydd angen gwaredu ardaloedd mawr o fwsog hefyd oherwydd gall y mwsog achosi lleithder a pheri i lechi a theils ddirywio'n gyflymach.

Gall teils crib a thalcen gael eu symud gan wyntoedd cryfion neu amodau stormus felly mae'n hanfodol gwirio am adrannau coll, a ddylai gael eu hadfer ar unwaith. Mae teils crib a thalcen yn aml wedi'u pwyntio â morter i ddarparu diogelwch pellach rhag y tywydd. Bydd y morter hwn yn methu yn y pen draw ac yn disgyn allan felly dylai ardaloedd pwyntiau coll gael eu hadfer, oherwydd bydd dŵr yn treiddio'n gyflym i unrhyw fylchau.

Planhigion

Gall prysgwydd, coed a phlanhigion dringol megis eiddew ddifrodi waliau neu rwystro cafnau.

Os caniateir i blanhigion a phrysgwydd dyfu yn erbyn gwaelod y wal, mae hyn yn tueddu i rwystro'r gwaith maen rhag sychu yn iawn. Dylid cael gwared ar unrhyw blanhigion sy'n tyfu o amgylch gwaelod yr adeilad felly ac mewn unrhyw gafnau daear neu sianeli draenio. Gall gwreiddiau planhigion a glaswellt beri difrod i gyfanrwydd sianeli o'r fath ac amharu ar eu gallu i gario dŵr yn gyflym i ffwrdd o'r adeilad.

Briciau aer ac awyrwyr

Caiff briciau aer ac awyrwyr eu defnyddio i gylchdroi aer trwy'r gwagleoedd o dan lorïau pren neu blatfformau meinciau. Os caent eu rhwystro, bydd llai o symudiad aer o dan y llawr, a all yn y pen draw arwain at bydredd yn y distiau llawr ac estyll.

Felly mae'n bwysig sicrhau bod briciau aer yn cael eu cadw'n glir. Os yw briciau aer neu awyrwyr wedi torri, gellir gosod rhai newydd cyfatebol yn eu lle.